

## Rhoi adborth i'ch cydweithiwr

Os gofynnwyd i chi roi adborth ynglŷn â'ch cydweithiwr, byddem yn eich annog i gymryd rhan. Byddai eich cydweithiwr yn hoffi cael adborth ynglŷn â beth mae'n ei wneud yn dda a sut y gall wella – *gall eich barn chi wneud gwahaniaeth*.

### Gofynnwyd i mi roi adborth. Ar gyfer beth mae hyn?

Mae'n ofynnol i feddygon trwyddedig ofyn am adborth ffurfiol gan gydweithwyr a chleifion o leiaf unwaith bob 5 mlynedd, er mwyn casglu'r wybodaeth ategol maen nhw ei hangen ar gyfer ailddilysu. Cyfeirir at hyn hefyd fel Adborth Aml-ffynhonnell (MSF) neu adborth 360.

Mae adborth ffurfiol yn ein galluogi i gasglu barn cleifion a chydweithwyr mewn ffordd systematig. Bydd hyn yn helpu'r meddyg i adfyfrio ar ei sgiliau proffesiynol. Defnyddir yr adborth gan y meddyg;

- Fel offeryn dysgu a datblygu. Gallai'r adborth nodi cryfderau a meysydd sydd angen eu gwella. Bydd hyn yn helpu'r meddyg i wella'i ddatblygiad proffesiynol
- Fel un o nifer o ddarnau o wybodaeth a fydd yn helpu i benderfynu a ddylid argymhell bod meddyg yn cael ei ailddilysu

Gallwch gael rhagor o wybodaeth [yma](#).

### A yw'r broses hon yn ddiennw?

Mae'r broses yn gwbl ddiennw. Dylech wneud yn siŵr nad ydych yn rhoi unrhyw wybodaeth bersonol wrth lenwi'r ffurflen. Pan fydd y ffurflenni sydd wedi'u cwblhau'n cael eu dychwelyd i ni bydd y data'n cael eu cadw'n ddiogel yn unol â'n polisi preifatrwydd. Bydd y data'n cael eu coladu a'u dadansoddi mewn adroddiad y gall y meddyg ei ddefnyddio i adfyfrio.

Bydd yr holiadur yn canolbwyntio ar y canlynol;




Cyfathrebu



Gwaith tîm



Arweinyddiaeth



Os byddwch yn penderfynu nad ydych eisiau cymryd rhan yn yr arolwg, gallwch wrthod y cais yn ddiennw. Dilynwch y cyfarwyddiadau yn yr ebost rydych wedi'i dderbyn er mwyn gwneud hyn.

Mae rhestr lawn o Gwestiynau Cyffredin i'w gweld [yma](#).